

LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024

Yn bresennol: Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd

Cynghorwyr: Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Evan Wyn Robertson a'r Cynghorydd Sir. Ken Taylor.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** –
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref, Caergeiliog.
3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 18 Mehefin 2024 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. G. O. Jones, eilydd Cyng. E. W. Thomas.)
Derbyniwyd cofnodion 27 Mehefin 2024 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. E. W. Thomas, eilydd Cyng. S. E. Jones.)
4. **Materion yn codi o'r munudau.**
 - 4.1 Cae Chwarae: Roedd S. Wharton wedi torri'r parc ac roedd RoSPA wedi cynhyrchu adroddiad ar gyflwr yr offer. Dim pryderon difrifol ond nodwyd bod mân beryglon oherwydd cyflwr y teils rwber o dan yr offer. Byddai'r clerch yn cylchredeg yr adroddiad ac yn edrych ar greu cynllun cynnal a chadw.
 - 4.2 Diffibriliwr – Roedd IOACC yn hapus i osod unrhyw un o'r ddau opsiwn a gyflwynwyd gan y Cyngor Cymuned ar gyfer cysylltu'r diffibriliwr. Ar ôl trafod rhinweddau'r ddau cytunwyd i ddefnyddio'r opsiwn rhataf h.y. y postyn galfanedig. Byddai rhaid sicrhau fod hwn yn ddigon uchel i osod yr arwyddion priodol.
 - 4.3 Neuadd y Pentref: Roedd y brydles ddrafft wedi ei chylchredeg, dim byd yn peri pryder - byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn adrodd yn ôl i'r cyfreithwyr fel y gellid cwblhau'r trosglwyddiad cyn gynted â phosib. Atgoffwyd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cytuno i dalu'r holl gostau cyfreithiol am sefydlu'r Brydles.
 - 4.4 Llwybrau: Roedd y gwaith ar lwybr troed 21/004/1 wrth Eglwys y Santes Fair wedi'i gwblhau. Byddai'r Cyng. Dyfed Williams yn gwirio'r llwybrau yn ystod yr haf ac yn cynghori ar fanyleb waith newydd ar gyfer y broses dendro.
 - 4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:
5. **Goleuadau Ffordd Minffordd** – nodwyd bod pris pob colofn golau wedi cynyddu i £8,825.

LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL

6. Ceisiadau cynllunio - dim.

7. Penderfyniadau Cynllunio:-

7.1 FPL/2024/100 Tyn Llan, Y Fali – wedi'i ganiatáu.

8. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.6.2024 i 30.6.2024 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £33,454.7 Cyfrif cadw £4043.06

9. Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

Cyflog (Mehafin)	£423.84	GMS Ground Services	£192
Arolygu Cael Chwarae (Chwarterol)	£48.80	Archwilydd Mewnol	£150
Play Safe Ltd (Rospa)	£117.60		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

10.1 Cofnodion Llyfrau Plwyf Llechylched – dim cofnod o'r rhain wedi cael eu dal gan Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll.

10.2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 18.7.2024

10.3 Ymgynghoriad newydd: Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant 2024-2030

11. Adroddiadau Aelodau

Cyng. Gwilym Jones:

Bydd gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair yn Neubwll am 2pm ar 24 Awst 2024.

Cafwyd cyfarfod yn Neuadd Bentref Caergeiliog ar 11 Gorffennaf 2024 i sefydlu Pwyllgor Codi Arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2026. Bydd Caergeiliog, Llanfair yn Neubwll, Llanfaelog, Rhosneigr a Phencarnisiog yn gweithio gyda'i gilydd i godi arian – cytunwyd ar darged o £7,000. Swyddogion etholedig - Ian Williams, Cadeirydd, Sian Topps, Ysgrifennydd ac Iona Swift, Trysorydd.

12. Cyfarfod nesaf - Cyfarfod Ychwanegol 20 Awst 2024

: